

Strategaeth Sgiliau iaith Gymraeg

Cyngor Sir Gâr

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn fformat arall,
cysylltwch â:

Rheoli Pobl a Pherfformiad

 Estyniad 6100

 RPUnedCymorthBusnes@sirgar.gov.uk

CYNNWYS		Tudalen
1.	Cyd-destun a chefnidir	3
2.	Strategaeth Sgiliau iaith Gymraeg	6
3.	Camau gweithredu'r Strategaeth Sgiliau iaith Gymraeg	7

Atodiadau

Atodiad 1:	Fframwaith ALTE	11
Atodiad 2:	Arweiniad i reolwyr ar osod lefelau leithyddol	13
Atodiad 3:	Matrics Asesu iaith Gymraeg	16
Atodiad 4:	Cyfleoedd Dysgu a Datblygu	20
Atodiad 5:	Cynllun gweithredu	21

1. Cyd-destun a chefnidir

Deddfwriaeth ddiweddar

Oherwydd deddfwriaeth ddiweddar sy'n ymwneud â'r Gymraeg a datblygiadau ym maes polisi iaith yng Nghymru, mae hi'n amserol i Gyngor Sir Gâr i sicrhau bod trefniadau priodol a digonol yn eu lle i staffio gwasanaethau dwyieithog yn Gymraeg a Saesneg i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mesur y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg

Derbyniodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 Gydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2011 gan roi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Mesur yn gosod fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Gymraeg ymhob agwedd o fywyd, sef y Safonau Iaith Gymraeg. Bwriad y Safonau Iaith yw symleiddio'r broses o osod dyletswyddau ar gyrff ac i gyflwyno mwy o gysondeb ar draws sectorau ac ardaloedd. Bydd y Safonau Iaith yn disodli'r Cynlluniau Iaith cyfredol, ac yn gosod dyletswyddau ar gyrff a enwir drwy Fesur y Gymraeg, mewn pum maes, sef; cyflenwi gwasanaeth, llunio polisi, gweithredu, hyrwyddo'r Gymraeg a chadw cofnodion.

Mae'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r safonau yn golygu bod yn rhaid i'r gyrff hynny i beidio trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn ogystal â hybu neu hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae hyn yn unol â'r ddwy egwyddor sy'n sail i waith y Comisiynydd y Gymraeg:

- yng Nghymru, ni ddylai'r iaith Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Mae'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg yn ddogfen allweddol o ran gwireddu'r Safon Gweithredu. Bydd hi hefyd yn ofynnol i ni ddatblygu polisi ar y defnydd o'r iaith o fewn y weinyddiaeth fewnol ac i gynnwys darpariaethau dwyieithog ar gyfer:

- contractau cyflogaeth
- gwybodaeth a chyfarwyddyd cyflogaeth
- cyfleoedd hyfforddi a chofnodion hyfforddi
- arfarnu ac amcanion perfformiad
- gwybodaeth sydd ar gael drwy feddalwedd Adnoddau Dynol
- polisïau a chanllawiau yn y gweithle
- ymdrin â chwynion a wneir gan staff
- gweithdrefnau a chyfarfodydd disgyblu
- technoleg gwybodaeth at ddefnydd staff
- tudalennau mewnwyd
- arwyddion a gwybodaeth mewnol a arddangosir
- polisïau a chyfleoedd recriwtio a dethol

laith fyw: laith byw

Cyhoeddwyd Strategaeth ar gyfer y Gymraeg 'laith Fyw: laith Byw' gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2012. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu gweledigaeth y Llywodraeth sy'n gweithredu er mwyn gweld y Gymraeg yn ffynnu. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar y weledigaeth a amlinellwyd yn 'laith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog' a gyhoeddwyd yn 2003.

Bydd y Llywodraeth yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid a fydd yn cyfrannu'n helaeth at sicrhau y caiff y weledigaeth ei gwireddu. I'r perwyl hwn, chwe nod y Llywodraeth yw:

- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion
- cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.

Mae'r strategaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' Llywodraeth Cymru fel elfen hanfodol wrth greu siaradwyr Cymraeg y dyfodol - ar y cyd ag annog y defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd.

Adroddiad 'Y Gymraeg yn Sir Gâr'

Yn dilyn cyhoeddi Canlyniadau Cyfrifiad 2011 a'r dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr, cytunodd y cyngor i sefydlu Gweithgor Gorchwyl a Gorffen i ymchwilio i'r ffactorau sydd wedi arwain at y dirywiad ac i lunio argymhellion er mwyn ymdrin â'r sefyllfa. Cytunodd y Gweithgor i edrych ar y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Cynllunio (tai fforddiadwy a'r Gymraeg o fewn datblygu cynaliadwy)
- Addysg (meithrin, statudol, bellach, uwch)
- Iaith ac Economi
- Gweithleoedd cyfrwng Cymraeg a gweinyddiaeth y Cyngor
- Effaith sefydliadau sy'n gweithio er budd y Gymraeg megis y Mentrau Iaith
- Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghymunedau'r sir (Cymraeg i Oedolion a defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol)
- Trosglwyddiad iaith yn y teulu
- Marchnata'r iaith

Y Cyngor Sir yw un o gyflogwyr mwyaf Sir Gaerfyrddin gyda dros 9,000 o staff a 74 o aelodau etholedig. Mae gan y cyngor rôl ganolog o ran cynnig arweiniad a gosod esiampl i'w drigolion a phartneriaid mewn nifer o feysydd amrywiol iawn, ac yn ganolog i hyn oll mae'n cynnig arweiniad cadarn o ran dyfodol yr iaith Gymraeg yn y sir. Yn y cyd-destun hwn mae'n bwysig ystyried rôl y cyngor fel darparwr gwasanaethau i gymuned ddwyieithog ond hefyd fel cyflogwr arwyddocaol o fewn poblogaeth ddwyieithog.

Ar hyd y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor Sir wedi datblygu a gosod mewn lle nifer o weithdrefnau polisi a gwasanaethau uniongyrchol er mwyn, yn bennaf, galluogi'r cyhoedd i gysylltu ag ymwneud â'r cyngor yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl eu dewis. Mae Cynllun Iaith Gymraeg y cyngor yn gosod disgwyliadau cadarn o ran ymwneud y Cyngor â'r cyhoedd ac mae'r Ganolfan Gyswilt a'r Canolfannau Gwasanaeth Cwsmer yn enghreifftiau cadarnhaol iawn o hyn yn ymarferol lle mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth dwyieithog naturiol.

Serch hynny, er mwyn ymateb i'r cwmp sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y sir, mae angen i'r Cyngor Sir fabwysiadu ymagwedd fwy rhagweithiol a gosod disgwyliadau uwch i'w hun fel corff sy'n gallu arwain y ffordd o ran codi statws a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y sir. Ein gweledigaeth hir dymor yw y bydd hyn yn arwain at ddatblygu ethos a diwylliant y cyngor fel corff naturiol dwyieithog a fydd yn medru esblygu'n hyderus i weinyddu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol.

Gwybodaeth ac arweiniad pellach

- Os oes gennych ymholiadau o ran y Safonau Iaith Gymraeg (2015), cysylltwch â'r tîm Polisi a Phartneriaeth ar 01267 224008/4914.
- Gallwch gael mwy o wybodaeth am y materion sy'n cael eu trafod yn y ddogfen yma, ac arweiniad pellach ar sut i weithredu trwy gysylltu â'r Adran Rheoli Pobl a Pherfformiad.

2. Strategaeth Sgiliau iaith Gymraeg

Bwriad y strategaeth hon yw sicrhau bod Cyngor Sir Gâr yn gwireddu gofynion Safonau'r Gymraeg.

Ynghyd â hyn, mae'n gwireddu'r argymhellion a baratowyd gan Weithgor y Cyfrifiad yn sgil canlyniadau Cyfrifiad 2011.

Y cam cyntaf tuag at baratoi Strategaeth Sgiliau iaith yw cydnabod bod y Gymraeg yn sgil, yn union fel unrhyw sgiliau eraill sy'n gysylltiedig â swyddi. O fewn fframwaith recriwtio ar gyfer swyddi Cyngor Sir Gâr, hysbysebir bob swydd ar isafswm o Lefel 1 ar y Fframwaith ALTE a bydd asesiad unigol yn cael ei baratoi ar gyfer bob swydd.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i sicrhau y bydd pob aelod o staff yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol gyda chwsmeriaid a chydweithwyr, ynghyd â sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth ieithyddol. Cynigir cefnogaeth i gyflogeion nad sy'n cyrraedd lefel 1 o'r Fframwaith ALTE, i gyrraedd y lefel hon cyn gorffen eu cyfnod prawf (o fewn mwyafswm o 12 mis).

Mae'r cyngor yn cynnig ystod o gyfleoedd i ddysgu a gwella'r Gymraeg yn y gweithle. Dylai pob aelod o staff drafod eu hanghenion fel rhan o'r cyfarfod 'Helpu Pobl i Berfformio' gyda'u rheolwyr ac fe gynigir y gefnogaeth briodol ar eu cyfer pan adnabyddir bod y Gymraeg yn sgil angenrheidiol ar gyfer y swydd.

Pwrpas Strategaeth Sgiliau iaith yw rheoli a chynllunio sgiliau iaith staff ac mae'n ymwneud â'r meysydd allweddol canlynol yn y broses o reoli sgiliau iaith:

- Pennu pa sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ar gyfer gweithleoedd, timau a swyddi ar draws yr Awdurdod;
- Cofnodi a monitro sgiliau iaith staff;
- Recriwtio pobl â'r sgiliau priodol yn yr iaith Gymraeg, ar gyfer y swydd a hysbysebir;
- Datblygu sgiliau ac ymwybyddiaeth iaith.

Bydd y fframwaith sgiliau iaith yn declyn allweddol i Reolwyr, wrth iddynt ddylunio a gweithredu eu cynlluniau gweithlu. Mae llawer o gyflogwyr blaenllaw yn y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi addasu un fframwaith sgiliau a gydnabyddir yn eang iawn, sef fframwaith ALTE (Cymdeithas Profwyr Ieithoedd yn Ewrop / The Association of Language Testers of Europe). Mae hwn yn cynnig cyfeiriad da i gyflogwyr am ei fod yn seiliedig ar gydnabod y pethau y gall unigolion eu cyflawni yn ieithyddol (yn Gymraeg a Saesneg yn y cyd-destun hwn). Mae'n ddull o fesur sgiliau iaith yn unol â'r tasgau cyfathrebu y mae person yn medru eu cyflawni wrth siarad, deall, darllen ac ysgrifennu.

Mae Cyngor Sir Gâr wedi mabwysiadu fframwaith ALTE ar gyfer asesu ystod o ieithoedd a gellir gweld copi o'r fframwaith yn Atodiad 1.

3. Camau gweithredu'r Strategaeth sgiliau iaith Gymraeg

Crynodeb o'r camau gweithredu

- (i) Cynnal arolwg o swyddi, gweithleoedd a thimau, er mwyn penderfynu pa sgiliau a phatrymau gwaith sydd eu hangen ar gyfer y swyddi, gweithleoedd a'r timau hynny.
- (ii) Diweddarau canlyniadau'r awdit o sgiliau iaith ein gweithlu yn unol â Fframwaith ALTE gan osod y canlyniadau ar feddalwedd adnoddau dynol Resource Link.
- (iii) Cymharu'r anghenion am sgiliau dwyieithog â'r sgiliau dwyieithog sydd gan y staff presennol.
- (iv) Nodi'r opsiynau ar gyfer cau'r bwlch sgiliau.
- (v) Llunio Rhaglen Weithredu a fydd yn cynnwys strategaethau ar gyfer
 - Hyfforddi / datblygu / cefnogi staff;
 - Recriwtio staff newydd;
 - Adleoli a hyblygrwydd staff lle bod angen.
- (vi) Monitro ac adrodd ar weithredu'r Strategaeth, gan ystyried yn benodol yr ymrwymadau o ran y Safonau Iaith Gymraeg (2015).

Gweithredu'r Strategaeth Sgiliau iaith Gymraeg fesul cam

(i) Cynnal arolwg o swyddi, gweithleoedd a thimau er mwyn penderfynu pa sgiliau dwyieithog sydd eu hangen

Awdit swyddi cyfredol

Meddylwch am y swyddi unigol, y timau a'r gweithleoedd. Ystyriwch pa sgiliau cyfathrebu sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod gwasanaeth y staff hynny'r un mor safonol ac effeithiol yn Gymraeg ag ydi yn Saesneg. Dylech ystyried yr anghenion hynny heb ystyried pwy sy'n digwydd bod yn y swydd, neu'r tîm neu'r gweithle hynny ar hyn o bryd.

Mae templed ar gyfer asesu swyddi i'w weld yn Atodiad 2. Bydd angen i Reolwyr gwblhau'r matrices asesu a diweddarau'r swydd ddisgrifiad yn unol â chanlyniadau'r awdit.

Os nad yw'r swydd yn wag, ac os nad yw'r sgiliau angenrheidiol gan y person sydd yn y swydd ar hyn o bryd, gallwch gynnig ac annog hyfforddiant i godi lefel sgiliau'r person hwnnw. Dylid trafod hyn gyda'r unigolion yn eich tîm fel rhan o'r cyfarfodydd arfarnu.

Ar sail yr arolwg yma, gallwch symud ymlaen i gymharu'r sgiliau y mae eu hangen â'r sgiliau sydd eisoes gan y staff, a thrwy hynny, bydd modd gweld beth yw'r bwlch sgiliau.

(ii) Cynnal arolwg o sgiliau dwyieithog y staff presennol

Mae'r Cyngor Sir eisoes wedi dechrau ar y gwaith o gynnal awdit manwl o sgiliau iaith ein gweithlu. Er hynny, mae angen diweddarau'r cofnod i adlewyrchu'r cytundeb polisi i fabwysiadu'r Fframwaith ALTE.

Gofynnir i Reolwyr drafod sgiliau ieithyddol gyda staff unigol fel rhan o'r cyfarfodydd arfarnu. Dylid diweddarau'r cofnod ieithyddol yn sgil y cyfarfod hynny a chytuno ar unrhyw gyfleoedd datblygu sydd eu hangen o ran y Gymraeg.

Yn ogystal â chofnodi lefelau sgiliau Cymraeg, gallwch ddefnyddio'r arolwg i gael gwybod beth yw lefelau sgiliau iaith y staff mewn ieithoedd eraill hefyd os dymunwch, gan gynnwys iaith Arwyddion Brydeinig.

(iii) Cymharu'r angen am sgiliau dwyieithog â'r sgiliau dwyieithog sydd gan y staff presennol

Ar ôl gweithredu'r cam uchod byddwch yn gwybod pa sgiliau iaith sydd eu hangen yn eich isadran neu dîm nawr ac yn y dyfodol. Ar ôl cwblhau'r awdit sgiliau byddwch yn gwybod pa sgiliau sydd gennych. Y cam naturiol nesaf yw cymharu'r sgiliau sydd eu hangen â'r hyn sydd gennych. Wrth wneud hynny byddwch yn cael gwybod am y meysydd lle mae angen sgiliau dwyieithog ond lle nad ydynt ar gael ar hyn o bryd o fewn y gwahanol swyddi a thimau.

Rhaid i'r dystiolaeth fod yn rhan o'r Cynllun Gweithlu adrannol a hynny er mwyn ei drafod a'i weithredu ar lefel Tîm Rheoli Adrannol.

Bydd disgwyliad ar reolwyr gwasanaeth i weithio o fewn eu timoedd rheoli i ddatblygu cynllun gweithredu, mewn partneriaeth â Rheoli Pobl a Pherfformiad er mwyn ymdrin â'r bwlch sgiliau.

Bydd angen ystyried yr opsiynau sydd ar gael yng ngoleuni:

- yr adnoddau sydd ar gael i weithredu unrhyw opsiwn;
- pwysigrwydd y swydd o ran sicrhau eich bod yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg o safon gyfartal yn y tîm dan sylw neu'r lleoliad dan sylw;
- yr angen i wneud y gorau o bob cyfle i gynyddu neu wella eich darpariaeth ddwyieithog;
- yr angen i ymgynghori ag aelodau staff ynghylch unrhyw newidiadau yn eu patrymau gwaith.

(iv) Datblygu sgiliau Cymraeg trwy hyfforddi / datblygu staff

Mae Cyngor Sir Gâr yn darparu rhaglen helaeth o gyfleoedd i ddysgu a gwella sgiliau yn y Gymraeg. Gellir gweld manylion pellach yn Atodiad 4.

(v) Paratoi rhaglen weithredu - recriwtio siaradwyr Cymraeg i swyddi / timau / gweithleoedd penodol

Bydd polisïau recriwtio a dethol y Cyngor yn cael eu diweddarau i adlewyrchu cyfrifoldebau'r Strategaeth hon.

Pan fydd swydd yn dod yn wag, neu pan gaiff swydd newydd ei chreu, bydd y Rheolwr Gwasanaeth yn gwneud trefniadau i'w llenwi, yn unol â gweithdrefnau'r cyngor. Bydd rhaid adolygu'r disgrifiad swyddi a chadarnhau'r lefel o sgiliau iaith sydd angen.

Cofiwch sicrhau fod pwyslais priodol yn cael ei roi yn y deunydd recriwtio ar yr union sgiliau Cymraeg sydd eu hangen, gan gyfeirio at Fframwaith ALTE. Dylid ystyried y ffactorau hynny wrth baratoi manyleb person, y disgrifiad swydd a hysbyseb(ion) swydd.

Rydym yn cydnabod bod llawer o siaradwyr Cymraeg yn teimlo nad yw eu sgiliau'n ddigon da i'w defnyddio yn eu gwaith. Mae cyfeirio at y Fframwaith ALTE yn gostwng pryder ac yn esbonio i unigolion bod ganddynt yr union sgiliau sydd eu hangen.

Os nad oes ymgeisydd â'r union sgiliau Cymraeg sy'n addas i swydd y mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar ei chyfer, yna, gallwch benodi rhywun sydd â sgiliau ar lefel is, ar yr amod y bydd yn gwella ei sgiliau hyd y safon sy'n ofynnol i gyflawni'r swydd. Os gwnewch hynny, rhaid i chi drafod gyda Rheoli Pobl a Pherfformiad i sicrhau bod yr amod hwnnw wedi ei gynnwys fel amod cyflogaeth. Bydd yr uned yn eich cynorthwyo i baratoi cytundeb dysgu i'r person a benodir.

(vi) Monitro ac adrodd ar weithrediad y Strategaeth

Mae Mesur y Gymraeg yn rhoi llawer o bwys ar fonitro a chadw cofnodion, a bydd hyn yn destun y Safon Cadw Cofnod newydd.

Bydd angen i'r cyngor ddangos ei bod yn gweithredu'r Strategaeth a bod cynnydd cyson tuag at ein gweledigaeth o fod yn gyflogwr dwyieithog. Byddwn yn mabwysiadu'r dangosyddion perfformiad canlynol -

Strategaeth Sgiliau iaith Gymraeg

- *nifer a chanran swyddi prif dderbynfeydd ble nodir y Gymraeg fel sgil hanfodol a chanran y rhai a lanwyd gan siaradwyr Cymraeg (Lefel 3 ALTE ac uwch);*
- *nifer a chanran y staff sy'n medru siarad Cymraeg fesul adran wasanaeth a gradd y swydd;*
- *nifer y swyddi a hysbysebwyd ar y lefelau ALTE unigol.*

Gall y dangosyddion hyn alluogi sefydliadau i fesur i ba raddau y mae gwasanaethau Cymraeg ar gael i'r cyhoedd ac a yw'r gwasanaeth yma'n cael ei gynllunio'n fwriadus. Fe allai'r data yma ein galluogi i fesur cynnydd dros amser ac i roi ystyriaeth i unrhyw broblemau recriwtio a amlygir.

Gall Comisiynydd y Gymraeg wneud ymholiadau am y materion yma ar unrhyw adeg a gofyn am wybodaeth am y cynnydd tuag at sicrhau gwasanaethau cydradd.

Atodiad 1: Fframwaith Sgiliau Iaith

Fframwaith Lefelau ALTE (Cymdeithas Profwyr Ieithoedd yn Ewrop)

(Perthnasol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg)

Lefel	Gwranddo/Siarad	Darllen	Ysgrifennu
1	- Medru ynganu enwau llefydd ac enwau personol yn gywir. - Medru cyfarch cwsmeriaid mewn derbynfa neu ar y ffôn. - Medru agor a chloi sgwrs.	Medru deall testun byr ynglŷn â phwnc cyfarwydd pan wedi ei gyfleu mewn iaith syml, e.e. arwyddion elfennol, cyfarwyddiadau syml, deall cynnwys agenda.	Medru ysgrifennu enwau personol, enwau llefydd, teitlau swyddi ac enwau adrannau'r Cyngor.
2	- Medru deall craidd sgwrs. - Medru derbyn a deall negeseuon syml ar batrymau arferol, e.e. amser a lleoliad cyfarfod, cais am siarad gyda rhywun. - Medru cyfleu gwybodaeth elfennol a chyfarwyddiadau syml. - Medru agor a chau sgwrs a chyfarfod yn ddwyieithog.	Medru deall y rhan fwyaf o adroddiadau byrion a chyfarwyddiadau arferol o fewn arbenigedd y gwaith, â bod digon o amser wedi ei ganiatáu.	Medru llunio neges fer syml ar bapur neu e-bost i gydweithiwr o fewn y Cyngor neu gyswllt cyfarwydd y tu allan i'r Cyngor.
3	- Medru deall a chymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgysiau arferol o ddydd i ddydd yn y swyddfa. - Medru cynnig cyngor i'r cyhoedd ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol. - Medru cyfrannu i gyfarfod neu gyflwyniad ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r	Medru deall y rhan fwyaf o'r adroddiadau, dogfennau a gohebiaeth y byddai disgwyl eu trafod yng nghwrs arferol y gwaith.	Medru llunio negeseuon ac adroddiadau anffurfiol at ddefnydd mewnol.

Strategaeth Sgiliau iaith Gymraeg

	swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol.		
4	• Medru cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol yng nghydestun y pwnc gwaith. • Medru deall gwahaniaethau cywair a thafodiaith. • Medru dadlau o blaid ac yn erbyn achos penodol. • Medru cadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r Gadair yn hyderus.	• Medru deall gohebiaeth ac adroddiadau pwnc wedi eu llunio mewn cywair safonol.	• Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a llenyddiaeth hysbysrwydd gyda chymorth golygyddol.
5	• Medru cyfrannu'n rhugl a hyderus yng nghyswllt pob agwedd ar y gwaith beunyddiol, gan gynnwys trafod a chynghori ar faterion technegol, arbenigol neu sensitif. • Medru cyfrannu i gyfarfodydd a darparu cyflwyniadau yn rhugl a hyderus.	• Medru deall adroddiadau, dogfennau ac erthyglau y byddai disgwyl eu darllen yng nghwrs arferol y gwaith, gan gynnwys cysyniadau cymhleth a fynegir mewn iaith astrus.	• Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a llenyddiaeth hysbysrwydd i safon dderbyniol gyda chymorth cymhorthion iaith. • Medru llunio nodiadau manwl wrth gymryd rhan lawn mewn cyfarfod.

Atodiad 2: Canllaw i reolwyr ar osod lefelau ieithyddol

Materion i'w hystyried

- O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mae'r iaith Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru.
- Ni ddylai eich gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg fod yn wasanaeth llai ffafriol yn Gymraeg na'r gwasanaeth rydych yn ei roi yn Saesneg.
- Nid yw'n briodol i gyrff gymryd yn ganiataol mai'r Saesneg yw'r iaith ddiofyn wrth gyflwyno gwasanaeth i ddefnyddwyr. Os ydych yn darparu gwasanaeth i ddefnyddwyr sy'n arfer siarad Cymraeg fel iaith y teulu, fel iaith gyntaf neu iaith bob dydd, dylech gymryd yn ganiataol y byddai'n well ganddynt siarad Cymraeg.
- Ni ddylai siaradwyr Cymraeg orfod gofyn am wasanaeth yn Gymraeg. Dylai'r gwasanaeth gael ei gyflwyno yn iaith arferol y person – boed yn Gymraeg neu Saesneg. Mae hynny yn gydnaws ag egwyddor y cynnig rhagweithiol sy'n cael ei arddel yn fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

Mae hyn yn golygu bod angen sicrhau bod gennych nifer priodol o aelodau staff sy'n medru'r Gymraeg.

Mae Cyngor Sir Gâr wedi ymrwymo i sicrhau bod pob aelod o'u staff yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol sylfaenol gyda defnyddwyr gwasanaeth, a sensitifrwydd at iaith a diwylliant siaradwyr Cymraeg. Mae cwrteisi ieithyddol sylfaenol ar Lefel 1 ALTE yn gofyn am y gallu i

- Ynganu enwau Cymraeg pobl yn gywir;
- Ynganu enwau llefydd yn gywir;
- Rhoi cyfarchion syml;
- Dweud rhai ymadroddion a geiriau syml;
- Ymateb yn gwrtais i rywun sy'n siarad Cymraeg.

Os nad ydy staff yn dal y sgiliau priodol wrth eu penodi, gellir eu cefnogi drwy hyfforddiant priodol i ennill y cymwyseddau hyn - hynny yw, Lefel 1 Cymraeg fel mae'n cael ei ddisgrifio yn y Fframwaith ALTE Atodiad 1.

Swyddi ar lefelau uwch o'r Fframwaith ALTE

Mae yna swyddi o fewn y Cyngor lle bydd angen lefel uwch o ruglder mewn Cymraeg llafar, ynghyd â'r gallu i ysgrifennu Cymraeg yn rhugl.

Canllaw defnyddiol ichi wrth ystyried pa lefel o fewn y Fframwaith ALTE fydd angen ar gyfer swyddi penodol, yw gofyn y cwestiynau canlynol ichi'ch hun:

- A ydym yn medru cynnig gwasanaethau Cymraeg a darpariaeth Gymraeg sydd gystal â'r rhai Saesneg o ran eu safon, argaeledd, a hwylustod?

Strategaeth Sgiliau iaith Gymraeg

- A fydd deilydd y swydd hon yn gweithio gyda grwpiau penodol o bobl? e.e. pobl ifanc, pobl hŷn, gydag Aelodau Etholedig?
- A fydd gan y swydd hon gyswllt uniongyrchol â'r maes Addysg?
- A fydd deilydd y swydd hon yn gweithio mewn ardal ddaearyddol benodol, lle ceir niferoedd neu ganrannau uchel o siaradwyr Cymraeg?
- A fydd gofyn i ddeilydd y swydd i wneud cyflwyniadau neu gyfweiliadau ar ran y Cyngor Sir? Neu gyflwyno'n rheolaidd i Aelodau Etholedig?
- A ydym wedi derbyn unrhyw adborth neu gwynion ynghylch gwendidau mewn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol?

Templed awdit swyddi cyfredol

Pennaeth Gwasanaeth:	Rheolwr:	Adran / isadran:
Uned Fusnes / Tîm:		
	Tystiolaeth	Pwyntiau gweithredu
Pa wybodaeth am sgiliau iaith eich gweithlu sydd gennych ar hyn o bryd?		
Pa swyddi o fewn eich tîm a ddynodir yn swyddi rheng-flaen?		
A ydych wedi derbyn unrhyw adborth neu gwynion penodol ynghylch eich gwasanaeth o ran defnydd o'r Gymraeg?		
A oes gennych y fersiynau cyfredol o bob swydd ddisgrifiad?		

ATODIAD 3 MATRICS ASESU IAITH GYMRAEG

I'W BARATOI GAN Y RHEOLWR LLINELL CYN HYSBYSEBU AM SWYDD NEWYDD NEU SWYDD WAG / CYFREDOL AC WRTH GYNNAL AWDIT O SWYDDI CYFREDOL

Mae'r matrices canlynol yn rhoi arweiniad i'ch helpu i benderfynu pa lefel o ruglder yn y Gymraeg fydd yn ofynnol.

Dylech sicrhau (trwy recriwtio a / neu hyfforddi a datblygu staff) bod digon o allu o fewn y tîm i wireddu gweledigaeth Gweithgor y Cyfrifiad:

"I gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle a dwyieithogi ymhellach gweinyddiaeth fewnol y Cyngor gyda'r nod o weinyddu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg gydag amser".

Datblygwyd y matrices i adnabod y lefel o sgiliau iaith Gymraeg sydd angen ar gyfer swyddi unigol. Wrth benderfynu ar y sgiliau iaith Saesneg, cyfeiriwch at y Fframwaith ALTE.

TEITL SWYDD:		LLEOLIAD:	
CYFLOG:		RHIF SWYDD:	
CWBLHAWYD GAN:		DYDDIAD YR ASESAD:	

CYMRAEG LLAFAR

1. A ydy'r swydd yn cael cyswllt rheolaidd ag aelodau o'r cyhoedd, naill wyneb yn wyneb, neu dros y ffôn?

1 – 20%	21 – 40%	41 – 60%	61 – 80%	81- 100%	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

2. A ydy'r swydd yn cael cyswllt rheolaidd gyda grwpiau penodol o bobl neu'n darparu cefnogaeth arbenigol i grwpiau megis pobl ifanc, pobl hŷn neu mewn cyd-destun gofal?

1 – 20%	21 – 40%	41 – 60%	61 – 80%	81- 100%	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

3. A ydy'r swydd yn cael cyswllt rheolaidd ag Aelodau Etholedig neu unigolion o sefydliadau allanol?

1 – 20%	21 – 40%	41 – 60%	61 – 80%	81- 100%	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

4. Fel rhan o'r rôl, a ydy deilydd y swydd yn gweithio neu'n cysylltu â sefydliadau Addysgu neu'n darparu cyfleoedd dysgu?

Strategaeth Sgiliau iaith Gymraeg

1 – 20%	21 – 40%	41 – 60%	61 – 80%	81 - 100%	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

5. A ydy'r swydd yn gweithio mewn lleoliad penodol o fewn y sir? Os ydy, pa ganran o'r gymuned sy'n siarad Cymraeg? Gweler y wybodaeth drwy [TrafodIAITH](#). Os ydy'r swydd yn gweithio ar draws y sir, sgoriwch ar y ganran uchaf o.g.y.dd

20 – 30%	31 – 40%	41 – 50%	51 – 60%	61 - 70%	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

6. Pa fath o gyfathrebu sydd ei angen gyda defnyddwyr gwasanaeth yn y Gymraeg?

Medru ynganu enwau llefydd ac enwau personol yn gywir	Medru deall craidd sgwrs	Medru deall a chymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgysiau arferol o ddydd i ddydd	Medru cyfrannu'n effeithiol yng nghyd-destun y pwnc gwaith	Medru cyfrannu'n rhugl a hyderus	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

7. A ydy'r swydd yn cynnig cyngor a chefnogaeth i staff eraill o fewn y sefydliad?

1 – 20%	21 – 40%	41 – 60%	61 – 80%	81 - 100%	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

Sgôr cyflawn

Sgôr o 7	Lefel 1 ALTE
Sgôr o 8 – 14	Lefel 2 ALTE
Sgôr o 15 – 21	Lefel 3 ALTE
Sgôr o 22 – 28	Lefel 4 ALTE
Sgôr o 29 – 35	Lefel 5 ALTE

Lefel y Gymraeg llafar i'w hysbysebu?	
Derbynnir lefel is gydag ymrwymiad i hyfforddiant?	
Cadarnhawyd gan y Pennaeth Gwasanaeth	
A oes unrhyw newid yn y lefel a aseswyd?	
Dylid nodi'r rhesymau yn y fan hon	
Dyddiad	

CYMRAEG YSGRIFENEDIG

1. A ydy'r swydd yn paratoi gwybodaeth reolaidd neu ymatebol megis negeseuon e-bost, llythyron, posteri neu deunyddiau cyfryngau cymdeithasol i aelodau o'r cyhoedd?

1 – 20%	21 – 40%	41 – 60%	61 – 80%	81- 100%	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

2. A ydy'r swydd yn paratoi gwybodaeth reolaidd megis negeseuon e-bost, llythyron ac adroddiadau i grwpiau penodol o bobl neu'n darparu cefnogaeth arbenigol i grwpiau megis pobl ifanc, pobl hŷn neu mewn cyd-destun gofal?

1 – 20%	21 – 40%	41 – 60%	61 – 80%	81- 100%	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

3. A ydy'r swydd yn paratoi gwybodaeth reolaidd megis negeseuon e-bost, llythyron a gwybodaeth briffio i Aelodau Etholedig neu unigolion o sefydliadau allanol?

1 – 20%	21 – 40%	41 – 60%	61 – 80%	81- 100%	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

4. Fel rhan o'r rôl, a ydy deilydd y swydd yn gweithio neu'n cysylltu â sefydliadau Addysgu neu'n darparu cyfleoedd dysgu?

1 – 20%	21 – 40%	41 – 60%	61 – 80%	81- 100%	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

5. A ydy'r swydd yn paratoi adroddiadau a dogfennaeth i'w hystyried gan y Cyngor Sir a'i bwyllgorau?

20 – 30%	31 – 40%	41 – 50%	51 – 60%	61 - 70%	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

6. Pa fath o gyfathrebu sydd ei angen gyda defnyddwyr gwasanaeth yn y Gymraeg?

Medru ysgrifennu enwau personol, enwau llefydd, teitlau swyddi ac enwau adrannau'r	Medru llunio neges fer syml ar bapur neu e-bost i gydweithiwr	Medru llunio negeseuon ac adroddiadau anffurfiol at ddefnydd mewnol	Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a llenyddiaeth hysbysrwydd gyda chymorth	Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a llenyddiaeth hysbysrwydd i safon	
--	---	---	--	--	--

Strategaeth Sgiliau iaith Gymraeg

Cyngor			golygyddol	dderbyniol gyda chymorth cymhorthion iaith	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

7. A ydy'r swydd yn cynnig cyngor a chefnogaeth i staff eraill o fewn y sefydliad? (Yn cynnwys paratoi gwybodaeth at ddefnydd mewnol)

1 – 20%	21 – 40%	41 – 60%	61 – 80%	81- 100%	
Sgôr 1	Sgôr 2	Sgôr 3	Sgôr 4	Sgôr 5	Sgôr =

Sgôr cyflawn

Sgôr o 7	Lefel 1 ALTE
Sgôr o 8 – 14	Lefel 2 ALTE
Sgôr o 15 – 21	Lefel 3 ALTE
Sgôr o 22 – 28	Lefel 4 ALTE
Sgôr o 29 – 35	Lefel 5 ALTE

Lefel y Gymraeg ysgrifenedig i'w hysbysebu?	
Derbynnir lefel is gydag ymrwymiad i hyfforddiant?	
Cadarnhawyd gan y Pennaeth Gwasanaeth	
A oes unrhyw newid yn y lefel a aseswyd?	
Dylid nodi'r rhesymau yn y fan hon	
Dyddiad	

Atodiad 4: Cyfleoedd Dysgu a Datblygu

Disgrifiad o'r cwrs:
Cymraeg yn y Gweithle - Dosbarthiadau Addysg Gymunedol (Lefel 1 – 3 ALTE) Lleoliadau amrywiol - Mynediad 1 a 2; Sylfaen 1 a 2; Canolradd 1 a 2 Sesiynau 2 awr, unwaith yr wythnos am 30 wythnos yn ystod tymor ysgol (ac eithrio gwyliau ysgol)
Cwrs y Fferi (Canolfan Griffith Jones) (Lefel 1 – 3 ALTE) I'ch helpu i adolygu, ymarfer a defnyddio eich Cymraeg cyn i'r tymor newydd ddechrau. Bydd hefyd grŵp ar gyfer ddechreuwyd pur.
Cwrs Carlam (Lefel 1 ALTE) I gynorthwyo dechreuwyd i ymuno â'r cyrsiau "Cymraeg yn y Gweithle" Addysg Gymunedol sy'n dechrau ym mis Medi.
Cwrs Cyfun (Lefel 4 ALTE) (Cwrs cyfunol Cymraeg llafar ac ysgrifenedig) Wedi'i anelu at y rhai sy'n dymuno datblygu geirfa dechnegol neu arbenigol yn eu gwaith bob dydd. Bydd y 4 wythnos gyntaf yn canolbwyntio ar iaith uwch wedi ei deilwra, gan ymglyfarwyddo'r dysgwr i iaith yn y gweithle sy'n benodol i'w hanghenion penodol, o ran ffurf ysgrifenedig ac ar lafar. Mae'r pythefnos diwethaf yn ddewisol a bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau llafar neu ramadeg. Bydd gofyn i'r rhai sy'n mynychu'r cwrs i ddanfôn rhestr o eiriau / samplau nodweddiadol o ddeunydd ysgrifenedig (naill ai yn Gymraeg neu Saesneg) at y tiwtor o leiaf fis cyn dyddiad cychwyn y cwrs.
Cymraeg Llafar A (Lefel 4 ALTE) (Gloywi ar gyfer Siaradwyr Cymraeg) Os yw'r ymgeisydd yn ddysgwr - dylent fod wedi llwyddo yn yr arholiad Canolradd neu TGAU Cymraeg fel Ail iaith. Os ydynt yn siarad Cymraeg (nid oes angen iddynt fod â chymhwyster) ond yn teimlo bod arnynt angen cymorth i ddatblygu hyder a gwella eu sgiliau llafar a therminoleg. Mae'r cwrs wedi ei anelu at siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno gwella eu sgiliau llafar. Bydd yn eu galluogi i gyfathrebu yn y gweithle yn fwy parod drwy gyfrwng y Gymraeg.
Cymraeg Llafar B (Lefel 4 ALTE) (Gloywi ar gyfer Siaradwyr Cymraeg) Mae'r cwrs wedi ei anelu at bobl sydd wedi cyrraedd lefel sy'n cyfateb i TGAU (Canolradd), p'un a ydynt yn ddysgwyr neu siaradwyr Cymraeg. Bydd yn gwella eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn modd swyddogol yn y gweithle.
Cymraeg Ysgrifenedig (Lefel 4/5 ALTE) Bydd y cwrs yn cael ei anelu at bobl sy'n dymuno gwella eu sgiliau ysgrifenedig yn Gymraeg. Bydd angen lefel hyderus o Gymraeg llafar a'r gallu i baratoi testunau syml yn gywir.

Atodiad 5: Cynllun gweithredu

	Pwynt gweithredu	Swyddog / adran sy'n arwain	I'w gwblhau:	Cynnydd / tystiolaeth:
1.	Llunio rhestr o adrannau / isadrannau (wedi eu blaenoriaethu ar sail cyswllt â'r cyhoedd) er mwyn cwblhau awdit swyddi	Rheoli Pobl a Pherfformiad / Polisi a Phartneriaeth		
2.	Diweddaru templedi disgrifiadau swyddi / gwybodaeth ar wefan recriwtio'r Cyngor i adlewyrchu'r newid	Rheoli Pobl a Pherfformiad		
3.	Paratoi a chynnal sesiynau briffio ar gyfer Rheolwyr i gyd-fynd â'r newid	Rheoli Pobl a Pherfformiad / Polisi a Phartneriaeth		
4.	Diweddaru polisiau a gwybodaeth Recriwtio a Dethol i adlewyrchu'r Startegaeth Sgiliau iaith Gymraeg	Rheoli Pobl a Pherfformiad		
5.	Diweddaru'r ffurflenni 'Helpu Pobl i Berfformio' / Arfarnu er mwyn cynnwys diweddariad o ran y Gymraeg	Rheoli Perfformiad a Gwybodaeth		
6.	Paratoi prospectws o gyfleoedd dysgu a gloywi'r Gymraeg	Dysgu a Datblygu		
7.	Llunio adroddiad ar sgiliau iaith staff yn unol â dangosyddion perfformiad y Safonau iaith Gymraeg	Rheoli Pobl a Pherfformiad / Polisi a Phartneriaeth		
8.	Sgrinio disgrifiadau swyddi i sicrhau cydymffurfiaeth, cyn eu hysbysebu	Rheoli Perfformiad a Gwybodaeth		

Strategaeth Sgiliau iaith Gymraeg

9.	Paratoi strategaeth adnoddau a chyfathrebu ar gyfer gweithredu'r Strategaeth	Rheoli Pobl a Pherfformiad / Polisi a Phartneriaeth		
----	--	---	--	--